

Yn ymuno

Mae arddangosfa ganolog y tymor yn cynnwys gwaith newydd gan Will Roberts, Sam Venables, Ruffles aka Clare Charles a Rebecca Thomas, gyda Gaia Persico a Cecile Johnson Soliz. Mae'r artistiaid wedi dod o hyd i ffyrdd o barhau â'u hymarfer yn y stiwdio ochr yn ochr â'u cyflogaeth, p'un ai drwy fenthyg propiau, cyflogi gwneuthurwyr, creu gwaith yn ystod y cyfnodau o fod rhwng swyddi neu weithio ar y cyd rhwng eu hymarfer a'u swyddi. Nid yw'r arddangosfa yn ymwneud â diffyg canolbwytio neu'r frwydr rhwng ymyrraeth â ffocws, yn hytrach, mae'n dadorchuddio ein gallu i amgyffred, asesu a deall amryw lif-feddyliau ar yr un pryd.

Rydym yn aml yn gweithio mewn 'amser coll', gwagle rhwng y pethau rydym yn ymwneud â hwy a'r pethau rydym yn bwriadu eu gwneud. A allwn ni ddod o hyd i amser ar ganol tasgau sy'n ofynnol gennym, i gynllunio'r hyn rydym am ei gael? Nid yw'r ymennydd yn cyflawni tasgau ar yr un pryd mewn gwirionedd, fel yr oeddem yn meddwl neu'n gobeithio y byddai'n gwneud. Mae amldasgio - y sgil dymunol hwnnw - yn fyth effeithlonrwydd. Efallai ei fod yn well ei ystyried fel creadigrwydd.

Mae Cecile Johnson Soliz yn ymddiddori llawer yn yr hyn sy'n digwydd pan fydd swyddogaeth, atgynhyrchu a manau cyhoeddus yn dod yn rhan o gelf. Gan nad oedd hi'n gallu dod o hyd i ddillad gwaith addas ar gyfer ei stiwdio oer, dyluniodd 'Dillad Gwaith Menywod (Prototeip)' a chyflogodd torrwr patrymau i greu prototeipiau. Mae'n dymuno cael patrymau wedi'u gwneud a'u hargraffu i bobl eraill eu prynu a'u haddasu, gan greu eu dillad gwaith eu hunain. Mae'n awyddus i wybod pam fod yna gymaint o wrthrychau sydd eu hangen nad ydynt yn bodoli hyd yn hyn.

Mae William Roberts yn gweithio llawn amser fel technegydd, ac yn defnyddio ap ffôn symudol fel ei stiwdio peintio. Mae'n gweithio ar y sgrin cyn gwneud ei waith technegol ei hun yn chwyddo'r delweddau, neu ddefnyddio peintwyr eraill i wneud y paentiadau 'gwirioneddol' ar ei ran - gan roi arian ar gyfer amser. Mae'n gweld ei bersonoliaeth artistig yn y trydydd person; nid yw ei bersonoliaeth technegydd yr un un â'r artist.

Mae Gaia Persico yn creu animeiddiadau arsylwadol o ddinasluniau lle mae presenoldeb dynol yn ymhyg yn hytrach na'n weladwy. Mae hi'n gwyllo'r cipluniau hyn o seilwaith a gwasgariadau trefol o ystafelloedd gwstai, sy'n cael eu defnyddio hefyd fel stiwdio gwaith a byw rhwng swyddi. Gan ddefnyddio dulliau cludadwy, hygyrch i greu gwaith, mae ymateb Persico i leoliad yn peri penbleth. Mae bod ar wahân o fewn byd y gwesty yn cyfyngu ar ei chysylltiad â'r hyn sy'n bodoli'r tu hwnt i'w ffenestr. Rydym yn gwyllo â hi, dan gyfaredd digwyddiad nad yw'n ddigwyddiad a'r disgwyl y bydd rhywbeth arall yn cael ei ddatgelu.

Dechreuodd Sam Venables fel teiliwr yng nghwmni Levi's ac mae'n parhau i weithio ar gyfer y cwmni ledled y wlad. Mae'r cylch o weithio er mwyn cefnogi ei gwaith, neu ymgorffori setiau o sgiliau pwrpasol (megis cynllunio gosodiadau siop neu ysgrifennu arwyddion), nid yn unig yn angenrheidiol o ran ennill arian ond mae hefyd wedi dod yn faes ymchwil: "Rwyf wedi gweithio fel marchnatwraig weledol yn datblygu iaith weledol ar gyfer brand, ac yn meddwl am y lleoliad manwerthu fel man arddangos i ddangos eitemau sydd o werth."

Cydweithrediad rhwng Clare Charles a Rebecca Thomas yw Ruffles, dwy fenyw a wnaeth gyfarfu yn Llundain wrth wriio nicers i gael deupen llinyn ynghyd. Mae Ruffles - enw bar byrbryd o'r Eidal sydd wedi'i gamsillafu - yn brosiect parhaus sy'n ystyried maes gwsteia. Bob yn un, mae eu harferion yn mynd y tu hwnt i derfynau gosodedig arferion materol i greu gwaith cymdeithasol a dinesig. Yn aml, gall eu rôl wrth wneud gwaith gael ei chysgodi'n llwyr gan ei swyddogaeth neu'r defnydd ohono mewn cymuned. Mae Ruffles yn creu ciosg ar gyfer yr arddangosfa hon - cerflun sydd hefyd yn gwbl effeithiol fel man gweithio / hwb / cegin / bar sy'n gryno a chludadwy, lle bynnag y mae'n cael ei symud.

Mae datgysylltiad creadigol yn helpu i gysylltu rhannau gwahanol yr ymennydd. Meddyliwch am yr adegau hynny pan rydych yn dod o hyd i'r gair nad oeddech yn gallu ei gofio pan roedd ei angen arnoch, ond mae'n dod i'r amlwg pan fydd eich meddyliau ar bethau eraill. Meddyliwch am un llaw ddim yn gwybod beth mae'r llall yn ei wneud, neu'r bobl hynny sydd wirioneddol yn gallu defnyddio'r ddwy law i gyflawni tasgau. Meddyliwch am ba mor anodd yw taro eich bol a rhwbio eich pen ar yr un pryd, neu geisio teipio un gair wrth wrando ar air arall. Efallai nad yw amldasgio yn strategaeth ar gyfer effeithlonrwydd wedi'r cwbl, efallai mai llwybr at syniadau newydd ydyw.

Lansiad - Dydd Gwener 2 Tachwedd, 6.30-9pm.
Ar agor rhwng 3 Tachwedd 2018 - 19 Ionawr 2019.
(ar gau 16/12/18 - 08/1/19)

g|39

Ar Agor: Mercher - Sadwrn 11.00 - 17.00
g39 Stryd Rydychen, Caerdydd CF24 3DT
+44(0)29 2047 3633
g39.org @g39cardiff #g39cardiff

